

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern
Nos Lun, 27 Mawrth 2017 am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr. Adrian Jones (cadeirydd) **AJ**, Miss Jane Ann Roberts (Is-Gadeirydd) **JAR**, Cynghorwr John Griffith, **JG**, Mrs Linda Jones **LJ**, Ms Cari Jones **CJ**, Dr. Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Mr O G Roberts **OGR**, Mrs Eluned Ann Burgess Thomas **EABT**, Ms Rhian Wyn Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: Mr Aled Ifan

2. Datgan Diddordeb

JG ynglyn ac Eitem 5.

3. Cofnodion Chwefror 2017 ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Cynigwyd eu bod yn gywir gan **AJ**, gyda **EABT** yn eilio.

3.1 Rhanwyd dyluniad o syniadau i'r arwyddion newydd, cafwyd trafodaeth ynglyn a lliw addas a penderfynwyd eu derbyn gyda'r ychwanegiad o "Cartref Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017." Nodwyd byddai'r clerc yn nodi dymuniadau'r aelodau ynglyn a lleoliadau yr arwyddion, ond mai'r adran briffyrdd fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol. Cytunwyd i'r clerc gadarnhau yr archeb a'r cais.

3.2 Cadarnhawyd fod dyfnbris wedi ei dderbyn i drin y lloches bws, ac gan byddai yn cael ei drin ar y cyl a lloches bws gyferbyn, bydd hyn yn lleihau y gost. Cytunwyd i'r clerc gadarnhau i'r gwaith fynd ymlaen.

3.3 Nodwyd gan **C.J.** fod y broblem baw ci yn parhau, ac fod y broblem wedi ei nodi gyda sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol ynglyn a baw ci ar dir yr ysgol gynradd. Y clerc i barhau gyda ymholiadau ynglyn ac arwyddion, deddfau gwlad ayyb. Nododd **JG** ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda plant Ysgol Gynradd ac wedi bod yn trafod syniadau ynglyn a dylunio poster. Nodwyd y byddai yn bwnc addas i'r poster, ac hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r mater. Nododd **JG** hefyd fod cwmni a swyddfeydd drwy'r wlad gyda swyddogion a pwerau gorfodaeth yn yr ardal cyn bo hir. Nodwyd fod trigolion y pentref yn gallu defnyddio unrhyw finiau i gael gwared o faw ci, ac nid oedd rhaid cael biniau arbennig, ac bod sticeri ar y biniau presennol yn nodi hyn.

Cyngor Cymuned Bodedern



3.4 Nododd EABT fod gwelliant wedi bod yng nghyflwr Ion Tai Uchaf. Nododd JG ei fod wedi derbyn cynw ychwanegol gan aelod o'r cyhoedd cyn y gwelliant, ac mai mater cwmni Hogan nid CSYM oedd y broblem, ond ar ol rhoi pwysau eu bod wedi cwblhau y gwaith.

4. Maes Chwarae / Ffrindiau Bodedern

Nododd CJ fod grant wedi ei sicrhau er mwyn prynu offer ychwanegol, ac unwaith eto diolchwyd i aelodau Ffrindiau Bodedern am eu ymrwymiad i'r maes chwarae.

5. Materion Cynllunio.

5.1 Cais 13C196 Cais Llawn ar gyfer addasu ag ehangu sydd yn cynnwys balconi yn 1 Cefn Rhosydd, Bodedern.

Dim Gwrthwynebiad.

6. Gohebiaeth.

6.1 Dosbarthwyd pecynnau etholiad 2017 ar gyfer aelodau y cyngor cymuned oedd yn dymuno rhoi eu henwau ymlaen.

6.2 Agenda Cyfarfod Un LLais Cymru.

6.3 Llythur ynglyn ac Adolygu'r cynllun gwella Hawliau Tramwy- holidaur i'w gael ar lein.

7. Eisteddfod 2017

Adroddwyd fod Pwyllgor Gyllid i'w gynnal yn fuan, ac byddai manylion yn dilyn.

8. Taliadau i'w gwneud.

Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol:

Mon Grass Cutting MGC2183	£100	Rhif Siec 200003
Cyflog Clerc Tach/Rhag/Ionawr	£500	Rhif siec 200004

Nododd AJ gan fod pwyllgor yr Eisteddfod wedi cyrraedd eu nod, dylid cysidro os allai arian a allai gael ei ddsbarthu i'r pwyllgor gael eu ddefnyddio tuag at gostau ychwanegol eleni fel potiau blodau ac yr arwyddion newydd. Cytunodd yr aelodau byddai harddu'r pentref yn ddefnydd gwell gan fod nod yr eisteddfod wedi ei chyrraedd.

Cyngor Cymuned Bodedern



Gofwynwyd i'r clerch adael y cyfarfod tra roedd trafodaeth breifat gan yr aelodau, ac ar ol dychwelyd nodwyd dymuniad caredig yr aelodau i god ffi y clerch o £500 bob chwarter i £600 bob chwarter. Mynegodd y clerch ei diolchgarwch i'r aelodau am eu caredigrwydd.

9. Unrhyw fater arall.

9.1 Nodwyd ei bod yn flwyddyn elecswin, a diolchwyd yn fawr i **JG** ac i'r Cynghorwyr Sir am eu gwaith, cyfraniad a chefnogaeth i'r gymuned yn ystod y cyfnod yma, a nododd **JG** ei fod yn ei ystyried yn anrhydedd ac yn mwynhau mynychu.

9.2 Nododd **LJ** fod cyfarfod pwyllgor Towyn Trewan wedi bod, ac bod bwriad cynnal cystadlaeauth golff ac gofynodd i **AJ** os byddai ystyriaeth yn cael ei roi y symud y defaid dros dro cyn y cystadleuaeth.

9.3 Nodwyd gan **JAR** fod bocs gwyrdd wedi ei godi wrth Rhosydd, ond doedd dim gwybodaeth ynlgyn a be oeddy bwriad.

9.4 Nodwyd gan **JAR** fod 3 golau stryd ddim yn gweithio yn y pentref. Y clerch i adrodd i CSYM.

9.5 Nododd **LJ** gyflwr difrifol Lon Dywyll, ac na ellir ei ddefnyddio ogwbwl ar hyn o bryd. Y cyflwr i'w adrodd i CSYM.

Cau 8.05

Arwyddwyd: _____

Dyddiad: _____